CYNGOR BWRDEISTREF SIROL

RHONDDA CYNON TAF

COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Democratic Services (01443 424110)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal **YN SIAMBR Y CYNGOR, CWM CLYDACH, CF40 2XX** ar **DYDD MERCHER, 16EG IONAWR, 2019** am **5.00 PM.**

AGENDA **Tudalennau**

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. CYFLWYNIAD

Derbyn Prif Swyddog Yr Awyrlu Brenhinol (RAF) Sain Tathan - y Cadlywydd Adain Rowley.

3. CYHOEDDIADAU

4. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2018 yn rhai cywir.

LLYWODRAETHU AGORED

5. DATGANIADAU

Yn unol â Rheol Dull Gweithredu 2 Cyfarfod Cyngor y Llywodraeth Agored, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet.

6. CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

a) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"Sut mae'r Cyngor hwn yn cefnogi datblygiadau seilwaith yn ardal gogledd Cwm Cynon?"

b) **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol H. Boggis i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan**:

"A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad am waith Tasglu'r Cymoedd?"

c) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i ddiogelu a gwella strwythurau allweddol ar draws Cwm Rhondda?"

d) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Pickering i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad am waith Tasglu'r Cymoedd os gwelwch yn dda ?"

e) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol H. Fychan i Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. M. Adams:

"Ydy'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu erioed wedi craffu ar ganlyniadau ac effaith prosiectau a gwasanaethau sy wedi'u datblygu yn rhan o raglen RhCT Gyda'n Gilydd, a'u gwerthuso?"

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

RHAGLEN WAITH Y CYNGOR - ER GWYBODAETH I AELODAU

7. CRONFA DEDDF EGLWYS CYMRU - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen.

25 - 68

8. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR LLEOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen.

69 - 80

9. LLWYBRAU'R FRO DAU: CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY RHONDDA CYNON TAF 2019-2029

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned.

81 - 120

10. PENDERFYNIADAU BRYS O DAN SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol.

121 - 124

11. NEWID AELODAETH

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol.

125 - 128

12. RHYBUDD O GYNNIG

a) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Forey, L.M. Adams, D.R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Elliott, S. Evans, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G Hughes, G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M.A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powderhill, S.M. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, R.W. Smith, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R.K. Turner, M. Webber, D.H. Williams, T. Williams, C.J. Willis, R.

Yeo:-

Mae'r ansicrwydd parhaus ynglŷn â'r ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi mynd i'r afael â thrafodaethau Brexit yn peri pryder mawr.

Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi darparu amcangyfrif o £4bn o gyllid strwythurol i Gymru er 2000, gyda rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd - sef y rhanbarth y mae'r Cyngor yma'n rhan ohono - yn gymwys i dderbyn dros £2bn o gymorth gan yr Undeb Ewropeaidd rhwng 2014 a 2020.

Yn ddiweddar, mae prosiectau mawr yn Rhondda Cynon Taf, fel ailddatblygu Canolfan Siopa Dyffryn Taf (£10 miliwn) ac unedau busnes Coed Elái a Thresalem (£5.158 miliwn ar y cyd) wedi elwa o gyllid Ewropeaidd, tra cafodd £119 miliwn ei ddyrannu i Metro De Cymru i ddatblygu Cam II y prosiect. Mae £78.4 miliwn o'r arian yma wedi'i ddyrannu ar gyfer gwella rheilffyrdd yn Rhondda Cynon Taf.

Mae'r enghreifftiau hyn yn amlygu pa mor hanfodol yw arian yr Undeb Ewropeaidd i gymunedau Rhondda Cynon Taf a rhanbarth ehangach Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Er bod sicrwydd y bydd prosiectau sydd eisoes wedi cael eu hariannu yn dal i fynd yn eu blaenau, mae yna ansicrwydd mawr ynglŷn â sut y bydd prosiectau allweddol yn cael eu hariannu yn y dyfodol hirdymor. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i sefydlu Cronfa Ffyniant Gyffredin i leihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau ar draws y pedair gwlad, ond nid oes sicrwydd na fydd Cymru ar ei cholled ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Cyngor hwn:

- Yn nodi diystyrwch Llywodraeth y DU o Gymru, sydd i'w weld yn ei phenderfyniad i wrthod â chefnogi prosiectau allweddol fel Morlyn Llanw Abertawe a thrydaneiddio prif reilffordd De Cymru**.**

- Yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn parhau i dderbyn pob ceiniog o'r arian y mae'n ei dderbyn ar hyn o bryd os/pan fydd unrhyw gytundeb ffurfiol ynglŷn â Brexit a'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

- Yn gwneud cais i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Brif Weinidog y DU ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn am sicrwydd y bydd yr arian yma yn cael ei warantu ar ôl 2020, os yw'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth 2019.

b) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol R.W. Smith, R. Lewis, L.M. Adams, D.R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Elliott, S. Evans, M Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J.

Harries, G Hughes, G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M.A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powderhill, S.M. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R.K. Turner, M. Webber, D.H. Williams, T. Williams, C.J. Willis, R. Yeo:-

Yn debyg i Lywodraeth Leol a'r holl wasanaethau cyhoeddus eraill, mae heddluoedd yng Nghymru a Lloegr wedi profi toriadau ariannol sylweddol dros y degawd diwethaf. Mae hyn wedi digwydd ar yr un pryd â chynnydd er 2014 mewn achosion o droseddau llai cyffredin ond mwy niweidiol, gan arwain at y nifer uchaf o ddynladdiadau yn ystod y degawd diwethaf a chynnydd mawr mewn troseddau sy'n gysylltiedig â chyllyll.

Yn y Gyllideb ddiweddar, dyrannodd Llywodraeth y DU £160 miliwn i wrthderfysgaeth ond methodd â chyhoeddi unrhyw arian newydd ar gyfer plismona rheng flaen hanfodol. Mae'r dyraniad o £300m ychwanegol gafodd ei gyhoeddi yn Setliad yr Heddlu ym mis Rhagfyr yn ddim mwy nag ymdrech i fwrw'r toriadau gan y Llywodraeth Ganolog i'r cysgod, ac yn trosglwyddo'r baich o ariannu Heddluoedd i gymunedau lleol trwy rymuso Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i godi'r rhan honno o Dreth y Cyngor sy'n cael ei defnyddio ar gyfer plismona. Mae'r grant o £161 miliwn i'w rannu ymhlith y 43 o Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn annigonol, tra bod y grant o £153 miliwn i dalu am y cyfraniad pensiwn yn golygu bod rhaid i'r Heddluoedd gyflenwi diffyg sylweddol, gan fod diffyg cenedlaethol o tua £420 miliwn o safbwynt pensiynau'r heddlu. Mae'r diffyg ariannu digonol yn ddigywilydd, ac yn cynyddu'r pwysau sydd eisoes ar ein Heddluoedd, gan gynnwys Heddlu De Cymru, a bydd yn cynyddu'r baich ar Heddluoedd ledled y wlad, sydd eisoes wedi gwneud arbedion sylweddol a lleihau eu gweithluoedd.

Yng ngoleuni hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod y canlynol wedi digwydd tra bod Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr:

- Mae cyllid yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi'i dorri o tua 20% mewn termau real rhwng 2010 a 2017.

- Mae cyllid y Llywodraeth Ganolog i'r Heddluoedd wedi'i dorri o tua thraean mewn termau real er 2010, gan olygu bod bron i 22,000 yn llai o swyddogion yr Heddlu.

- Dydy ymrwymiad Llywodraeth y DU yn yr adolygiad o wariant yn 2015 i "warchod yr arian sy'n cael ei wario ar yr Heddlu ar y cyfan, mewn termau real", ddim wedi cael ei fodloni gan fod y cyllid sy'n dod o'r Llywodraeth Ganolog wedi gostwng mewn termau real. Mae unrhyw setliadau gwastad ar gyfer heddluoedd unigol yn dibynnu'n llwyr ar godi Treth y Cyngor yn lleol, sy'n ddibynnol ar gyfyngiadau demograffig.

- Mae morâl ac amodau o fewn heddluoedd wedi dirywio'n ddifrifol. Darganfu arolwg Tâl ac Amodau Ffederasiwn yr Heddlu 2018 fod 7.8% o'r 27,000 o ymatebwyr wedi ymgymryd ag ail swydd (y nifer uchaf erioed), fod bron i 45% yn poeni am eu cyllid personol, ac nad yw 87.9% yn teimlo eu bod yn cael eu talu'n deg yn dilyn gostyngiad o 18% yn eu tâl ers 2009/10.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- Ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref i gyfleu'r angen i ariannu plismona rheng flaen yn briodol ar frys, trwy ddatrysiad ariannol hirdymor sy'n gwrthdroi'r toriadau difrifol ac yn darparu'r rhyddhad sydd wir ei angen ar Heddluoedd ledled Cymru a Lloegr.

- Gofyn am adolygiad brys o'r fformiwla ariannu gyfredol i ddatrys y trefniant presennol, sy'n amlwg yn ddiffygiol, sy'n golygu na all Heddlu De Cymru dderbyn cyllid Prifddinas.

13. BUSNES BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol

At: Pob Aelod o'r Cyngor